

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Iorwerth Martin (Nantglyn) ychydig ddyddiau wedi i'r rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled gael ei gyhoeddi. Ag yntau newydd ddathlu ei benblwydd yn 90 oed ychydig fisoedd yn ôl, cofiwn amdano fel cymeriad hawddgar oedd yn aelod ffyddlon yng Nghapel y Waen. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf gyda'i ferch a'i wyrion, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddiwn y byddant hwy, ynghyd â'r teuluoedd eraill yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid, yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Nansi Jones (Henllan), Dilys Jones (Nantglyn) ac Elwyn Roberts (Llansannan) sy'n cael gofal mewn gwahanol ysbytai ar hyn o bryd, a hefyd Meirion T. Jones (Henllan) dreuliodd noson yn yr ysbyty yr wythnos ddiwethaf. Cyflwynwn hwy, ac eraill yn yr ofalaeth sydd wedi bod yn yr ysbyty a hefyd y rhai sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau y dyddiau hyn, i ofal Duw gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac yn eu hiacháu.

Cofiwn hefyd am ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Dilys Vaughan (Saron), Mrs Gwen Evans (Saron), Mrs Mair Williams (Llansannan), a Mrs Edna Evans (Llanfair) a diolchwn am y gofal y maen nhw'n ei dderbyn. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Estynnwn ein llongyfarchion i Lowri Rossington (Llanfair) a Ryan ar eu priodas ddydd Sadwrn diwethaf – priodas y cawn gyfle i'w gweld ar S4C cyn hir gobeithio! Pob dymuniad da i chi yn eich bywyd priodasol.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (29ain), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 19 Medi 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Yn ystod gwres yr wythnos diwethaf roedd angen rhywbeth i'n cysgodi yng ngardd Heulfryn, ac yn handi iawn mae gennym babell y gellir tynnu ei hochrau a'i chodi mewn ychydig funudau. Rydym wedi defnyddio cryn dipyn arni dros y ddau haf diwethaf, a bu'n help mawr i'n galluogi i sgwrsio yn yr awyr agored. A hyd yn oed heb gyfyngiadau pandemig, mae cael rhywbeth sy'n cysgodi rhag haul poeth ac yn fodd i ymochel rhag glaw yn eithriadol o ddefnyddiol. Gwnaeth hyn i mi feddwl am rai disgrifiadau cofiadwy yn llyfr y Salmau. Mewn llawer man mae'r Salmydd yn disgrifio'r Arglwydd fel lloches i'r credinwyr, yn gysgod i'n diogelu mewn amrywiol sefyllfaoedd. Meddyliwch am y geiriau hyn ar ddechrau Salm 57: 'Bydd drugarog wrthyf, O Dduw, bydd drugarog wrthyf, oherwydd ynot ti yr wyf yn llochesu; yng nghysgod dy adenydd y mae fy lloches nes i'r stormydd fynd heibio.'

Mae'n ddarlun hyfryd o alw ar Dduw mewn trybini a derbyn o'i drugaredd. Gallwn ddychmygu cywion yn cael eu cysgodi rhag yr elfennau wrth iddynt swatio'n dynn o dan adenydd eu rhieni. Nid un storm y maent yn ei wynebu ond stormydd niferus, ac mae cysgodi mewn storm yn eu cadw ac yn eu paratoi i wybod beth i'w wneud yn ystod y storm nesaf! Beth amdanom ni? Ydym ni'n galw ar yr Arglwydd yn ein hangen, ac wedi Ei brofi'n lloches trwy stormydd bywyd wrth i ni roi'n ffydd yn Iesu Grist?

Er mor ddefnyddiol oedd y babell yn yr ardd yr wythnos diwethaf, mae hi wedi cael ei chadw erbyn hyn. Bydd tywydd hydrefol Llansannan yn siŵr o ymddangos ar ryw bwynt, a does gen i ddim llawer o awydd rhedeg ar ôl pabell sy'n hedfan i lawr Ffordd Gogor! Fydd y babell ysgafn ddim yn gallu'n cysgodi rhag tywydd drwg go iawn. Ond nid felly mae cysgod cariadus Duw dros Ei bobl. Bydd yr Arglwydd yn ein cadw a'n cynnal ym mhob braw a thrwy bob dyffryn tywyll du – dyna Ei addewid i'r saint. Ac mae dyfodiad Iesu Grist i'n byd wedi dangos hynny'n eglur. Aeth Mab Duw i'r Groes yn ein lle. Profodd y storm waethaf bosib – llid cyfiawn Duw yn erbyn pechod, er mwyn i bawb sy'n credu ynddo dderbyn maddeuant a'r diogelwch o fod yn blant Duw am byth. Dyma newyddion da i'w drysori a'i rannu, ac angor gadarn i'n ffydd, yn enwedig pan fyddwn yn wynebu cyfnodau tymhestlog bywyd. 'Oherwydd dioddefodd Crist yntau un waith am byth dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi at Dduw.' (1 Pedr 3:18)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

- Dydd Sul – Medi 19^{eg}**
- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 ac yn Llansannan am 11:00** o dan arweiniad Rhodri. Ar gyfer oedfa Cefn Meiriadog, rhowch eich enw i Haf erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda. (Nid oes angen rhoi enwau ar gyfer yr oedfa yn Llansannan.)
 - **Oedfa yn Groes am 9:30 ac yng Nghefn Berain am 11:00** o dan arweiniad y Parch. David Owens. Er mwyn sicrhau lle yng Nghefn Berain, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian (post@brynamel.co.uk / eirianj123@gmail.com) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda. (Nid oes angen rhoi enwau ar gyfer yr oedfa yn Groes.)
 - **Sgwrs a Gweddi** yn Festri Llansannan am 6:00 yr hwyr. Cyfle anffurfiol i gymdeithasu, i rannu ac i weddio. Croeso i bawb.

- Dydd Sul – Medi 26^{ain}**
- **Ysgol Sul yn Llanefydd** am 10:00 y bore.
 - **Oedfa ar YouTube** yng nghwmni y Parch. Aron Treharne am 10:30 y bore neu gallwch wyllo unrhyw amser wedi hynny. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' sydd ar y dudalen flaen.)
 - **Sgwrs a Gweddi** yn Festri Llansannan am 6:00 yr hwyr. Cyfle anffurfiol i gymdeithasu, i rannu ac i weddio. Croeso i bawb.

- Nos Lun, Medi 27^{ain} (a Dydd Gwener, Hydref 1^{af})**
- **Byw mewn Gobaith, Merched yr Hen Destament** – y sesiwn cyntaf mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas (ar ZOOM). Gellir ymuno naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Dydd Sul – Hydref 3^{ydd}

- **Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00** o dan arweiniad Dr Owain Edwards. Ar gyfer oedfa Cefn Meiriadog, rhowch eich enw i Haf erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa Ddiolchgarwch yn Llanefydd am 9:30 ac yn Henllan am 11:00** yng nghwmni'r Parch. Aneurin Owen. Ar gyfer yr oedfa yn Llanefydd, rhowch eich enw i Mair B. Williams erbyn hanner dydd ar y Sadwrn blaenorol, os gwelwch yn dda, ac ar gyfer yr oedfa yn Henllan, enwau i Rhian (rhianfachgau@yahoo.com) neu Alys (alysowen11@hotmail.co.uk), os gwelwch yn dda.
- **Oedfa Ddiolchgarwch yn Saron am 10:00** o dan arweiniad Mr Arawn Glyn. Enwau i Helen (550327 / 07867 984373) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- **Sgwrs a Gweddi** yn Festri Llansannan am 6:00 yr hwyr. Cyfle anffurfiol i gymdeithasu, i rannu ac i weddio. Croeso i bawb.

Rhaghysbys

- **Cynhelir Oedfa Diolchgarwch Capel Henllan** nos Lun, Hydref 11eg am 7:00 gyda'r Parch. John Owen yn pregethu.

Llais Bro Aled

Gan fod y rhan fwyaf o eglwysi'r ofalaeth wedi ail-agor erbyn hyn, **ni fyddwn yn postio Llais Bro Aled ar ôl y rhifyn hwn** (ar wahân i ychydig eithriadau). Ar gyfer y rhai sydd ddim yn gallu derbyn copi ar ebost, ein bwriad yw dosbarthu pecyn i bob eglwys yn unol â'n trefniant cyn y cyfnod clo. (Fe ddof i gysylltiad yn y pythefnos nesaf â'r rhai sy'n arfer casglu'r pecynnau i gadarnhau'r trefniadau.) Os na fyddwch wedi cael copi ar y Sul, gobeithiwn y bydd modd gwneud trefniant eto hefo'r Llyfrgell yn Ninbych i adael copïau yno, fel ag sydd eisoes yn bosib yn y Siop yn Llansannan. Os nad oes modd i chi dderbyn copi trwy unrhyw un o'r ffyrdd uchod, plis cysylltwch â Mair ac rwy'n siŵr y bydd posibil gwneud trefniant arall.

Gair i'ch atgoffa hefyd ein bod yn argraffu copïau o Llais Bro Aled sydd â'r ysgrifen naill ai **ddwy** neu **bedair** gwaith yn fwy o ran maint ar gyfer sawl un o'r darllenwyr. Os ydach chi, neu os gwyddoch am unrhyw un sydd yn ei chael yn anodd darllen Llais Bro Aled yn y maint fel ag y mae, plis gadewch i Mair wybod. Gallwn argraffu fel bo'r galw a dosbarthu'r copïau mwy o faint hefo'r pecynnau Llais Bro Aled sy'n dod i'r eglwysi, neu trwy drefniant arall yn ôl y galw.